# Heddwch

## NEWYDDION GWEITHREDU

cylchgrawn CND Cymru

Gwanwyn 1994
Rhif 6 25c


# Rydych chi'n meddwl felly...

## ... fod pawb yn diarfogi a bod y byd yn lle mwy diogel bellach.

## ... fod Prydain yn cael gwared ar ei harfau niwclear.

## ... fod arfau niwclear yn ddiogel cyhŷd â bod neb yn eu defnyddio.

## ... bod neb wedi ffrwydro bom oddi ar 1945.

## ... fod cwtogi ar amddiffyn yn golygu cwtogi swyddi.

## MEDDYLIWCH ETO


- Mae llawer o wledydd yn lleihau nifer eu harfau niwclear, ond maent yn cael eu disodli gan rai mwy diweddar sydd yn rymusach ac yn gywirach eu haneliad.
- Mae Prydain yn mynd ati'n ddigywilydd i gynyddu grym dinistriol ei hystorfa niwclear gyda thaflegrau Trident, gan droseddu yn erbyn Isadran VI y Cyfamod er Rhwystro Ymlediad Arfau Niwclear.
- Mae'r deunyddiau a ddefnyddir yn y broses o wneud bomiau niwclear yn rhai bythol angheuol, o'r foment y dônt o grombil y ddaear, bob tro y cânt eu cludo, hyd at amser eu hail-brosesu; maent yn berygl parhaol i'r amgylchedd ac i fywydau dynol. Mae bodolaeth arfau niwclear yn achosi ansefydlogrwydd gwleidyddol.
- Mae o leiaf 1,430 o ffrwydradau niwclear arbrofol wedi cymryd lle yn y byd ers 1962.
- Buddsoddiad cyfalaf enfawr yw un o brif nodweddion y diwydiant amddiffyn. Fe ellid cyflogi llawer mwy o bobl trwy fuddsoddi'r un symiau ariannol ar brosiectau a fyddai o les i'r gymdeithas.

**Mae arddangosfa Dadl Sylfaenol CND, y mae'r testun hwn yn rhan ohoni, yn teithio trwy Gymru yn ystod y gwanwyn. Gwelwch dudalen 4 am leoedd a dyddiadau.**

**Y tu mewn hefyd: 7 tudalen o Nodiadau Gweithredu ac Ymgyrchu, a gwybodaeth angenrheidiol**

Mae CND Cymru yn gweithio dros heddwch a diarfogi rhyngwladol a byd lle mae'r adnoddau anferth a ddefnyddir ar hyn o bryd i ddibenion milwrol wedi eu hailgyfeirio i ateb gwir anghenion y ddynolryw

Produced by Pia 0222 222782. Printed by Fingerprints (TU) 0222 482582



## PILI PALA

Ai breuddwyd addasydd arfau ydoedd neu adroddiad gan Ohebydd Amgylchedd BBC Cymru? Mae USNF Breudeth, yr Orsaf Olrhain Llongau Tanfor yn cael ei hystyried ar gyfer bod yn Orsaf Olrhain Morfilod gan ymchwilwyr bywyd gwyllt mewn prifysgol yn yr UD.

— ● —

Newyddion o Wlad y Rhydd. Beintioch chi 'gysgodion' ar y llawr erioed i gofio Hiroshima? Yn yr UD, cafodd dwy fenyw, Susan Crane a Max Venture, 60 diwrnod o garchar am wneud yn union felly.

— ● —

Mae Cyngor Diogelu Cefn Gwlad Cymru wedu penderfynu ymgyrchu yn erbyn ffermydd gwynt. Dyna drueni nad ystyriodd weithredu yn yr un modd yn erbyn gorsafoedd ynni niwclear ac yn erbyn cludo defnyddiau ymbelydrol drwy ein gwlad hardd!

— ● —

Roedd datganiad diweddar i'r wasg gan y Swyddfa Gymreig yn crochlefain y ffaith bod 16 fferm arall yng Ngogledd Cymru wedi eu rhyddhau o'r rheolaethau yn sgil trychineb Cherbobyl ym 1986. Ond wyddech chi bod 337 o ffermydd yng Nghymru yn dal i fod o dan reolaethau caeth, a 114 yn Lloegr?

— ● —

Bydd cynnydd yn nifer defaid ymbelydrol Gogledd Cymru cyn hir. Yn Atomfa Trawsfynydd mae'r ffwrnesi i losgi gwastraff ymbelydrol bellach yn eu lle. Ni chafwyd trwydded hyd yma i ollwng deunydd i'r awyr o dan Ddeddf Defnyddiau Ymbelydrol. Yn y cyfamser, daethpwyd o hyd i americiwm, deunydd ymbelydrol hynod wenwynllyd – mewn bresych lleol – yr union beth i'w gael gyda phlataid o gig oen ymbelydrol!

— ● —

Mae menywod wedi bod yn galw i mewn ar y rheini sy'n brysur yn clustfeinio ar ran Washington. Caeodd Gweithred Heddwch Dydd Calan Ganolfan Ysbio'r UD ar Menwith Hill yn swydd Efrog. Aed â dwy fenyw i'r ddalfa ar ôl iddynt gerdded drwy'r ffens. Mae Helen John, o Otley, Swydd Efrog bellach, wedi bod ar remand am chwe wythnos am 'fence damage to a defence establishment'. Tinc fach gyfarwydd i hynny.

— ● —

Pan gymerodd gweithwyr yn Adweithydd Dŵr dan Bwysau Sizewell B ran mewn 'Rhybudd Argyfwng Niwclear', dywedwyd wrthynt am ymgasglu mewn mannau arbennig. Nid oeddynt, ar unrhyw gyfrif, i fod i adael y safle gan y byddai hynny'n creu tagfa ar yr un ffordd sy'n arwain at Sizewell, y byddai angen ei chadw'n glir ar gyfer y gwasanaethau argyfwng. Dywedodd un gweithiwr wrth Pili Pala pe bai yna argyfwng go iawn eu bod wedi cytuno y byddent oll yn ei heglu hi ar hyd y traeth cyn gyflymed ag y gallai eu coesau eu cario!

# Menywod Greenham o Bobman

Ar y 26ain Tachwedd 1993 aeth Sonia Hancock a'i mab blwydd oed, Tomos, Olwen Davies, a Thalia Campbell o Aberystwyth i Gomin Greenham mewn men wersylla. Danfonasai'r ychydig fenywod sy'n dal i wersylla wrth y glwyd Felen a'r Glwyd Las wahoddiad i fenywod ddod i drafod dyrodol y gwersyll. Mae menywod y Glwyd Felen yn meddwl aros. Buom yn gyrru drwy niwl trwchus cyn belled â Cheltenham, gan gyrraedd Newbury a Greenham am hanner dydd, yn union wrth i'r haul ymddangos.




Roedd baner wedi ei gwneud o sachau ar y lein olchi yn mynnu bod tiroedd comin ar gyfer pobl ac anifeiliaid nid datblygwyr. Roedd pebyll a cheir o gwmpas y Glwyd Las ac yn y goedwig ger llaw. Ymhlith y menywod o gwmpas y tân roedd rhai o Sbaen ac un o Ddwyrain yr Almaen. Buom yn trafod ein llwyddiannau a chytuno ein bod oll yn dal i fod yn 'Fenywod Greenham' ble bynnag yr ydym yn byw bellach. Roedd Greenham wedi newid ein bywydau. Cawsom help llaw gan fenywod i roi'r baneri ar y ffens, yn cynnwys un sidan newydd yn dathlu bywyd Petra Kelly.

Roedd y pedair sydd yn byw yno ar hyn o bryd yn fodlon aros pe deuai mwy o fenywod i ymuno â hwy ond os ânt, byddant yn dychwelyd am ymweliadau rheolaidd adeg yr heuldro i'r cynulliadau o fenywod a fydd yn parhau yn Greenham. Nos Sadwrn, bwytasom bwdin anferth yn llawn datys a ffrwythau sychion. Buasai'n coginio drwy'r dydd ar dân yn yr awyr agored. Fore Sul, aethom gyda Hilda Meers o Swanage i weld bynceri'r taflegrau Cruise. Golygfa iasol, yr holl baratoadau costus, gwastraffus hynny ar gyfer marwolaeth miliynau, bynceri gwag, cegrwth, diffaith wedi eu hamgylchynu gan ffensys, weiren bigog, ffens rwydwaith arall yn dyllau a bylchau i gyd lle torrodd menywod eu ffordd drwodd, chwyn yn tyfu yng nghraciau'r concrid, a dim golwg o neb.

Teimlen ni bod gwerthoedd menywod wedi ennill.

*Thalia Campbell*

# Malcolm Gyfrwys a'i Gastiau

**Mae Malcolm Rifkind wedi cyhoeddi yr hyn y cyfeiria atynt fel 'gostyngiadau' yn y rhaglen Trident. Mae'r 'toriadau' hyn yn dal yn gyfystyr â chynnydd anferth i'w gymharu â Polaris oherwydd gallu tanio a chywirdeb mwy Trident – mae bedair gwaith mor farwol â Polaris. Gellir defnyddio Trident fel arf 'trawiad cyntaf'. Yn ôl Rifkind, defnyddir Trident i amddiffyn 'buddiannau' Prydain (beth bynnag mae hynny'n ei olygu) y tu allan i Ewrop. Mae hyn yn awgrymu ail-ddylunio'r ergyd ar gyfer swyddogaeth ymateb cyflym, ac yn caniatau ar gyfer *scenario* hunllefus o Brydain yn ymladd rhyfeloedd niwclear bychan mewn gwledydd pellennig.**

**Dywedodd Rifkind hefyd y 'y gallai cytundeb atal profion cynhwysfawr gyfrannu at ein hamcanion parthed atal lledaenu'. Anodd credu hynny gyda'r llywodraeth Brydeinig wedi methu cefnogi'n llawn y moratoria a oedd eioes mewn grym gan yr UD, Ffrainc a Rwsia. Pe bai'r llywodraeth i roi ei holl bwysau y tu ôl i'r galw am Gytundeb Atal Profion Cynhwysfawr a dileu Trident, gallem wedyn ddathlu newid arwyddocaol iawn yn osgo niwclear Prydain.**

**GWEITHREDU**

***Ysgrifennwch at Rifkind/y wasg/eich AS. Dywedwch wrthynt nad ydych mor ffôl â chredu bod y 'toriadau' bondigrybwyll yn y rheglen Trident (nad yw'n bod hyd yn hyn fel system arfau niwclear) yn golygu gostyngiad yng ngallu niwclear Prydain. Gofynnwych beth yw gwir ddiben Trident. Mae ymateb manwl i araith Rifkind ar gael gan Jill Stallard – gweler y rhestr gysylltiadau.***

# THORP – Y Kraken yn Deffro?

Gwnaeth penderfyniad llwfr y llywodraeth i ganiatau i THORP i fynd yn ei flaen yn hytrach na wynebu peryglon sylweddol lledaenu arfau niwclear y bydd gweithredu THORP yn ei olygu y 15fed o Ragfyr yn ddiwrnod trist i'r byd. Mae'r llywodraeth, a hithau'n fodlon wynebu lledaeniad niwclear, brawychaeth niwclear, a thwf economi blwtoniwm yn hytrach na chyfaddef iddi wneud camgymeriad, wedi taflu'r baich ar ysgwyddau cenedlaethau i ddod a'u gwleidyddion hwy. Mae cynghorydd cyfreithiol Pwyllgor Llywio'r Awdurdodau Lleol Di-niwclear wedi darganfod mai'r Undeb Ewropeaidd fydd yn berchen ar y plwtoniwm a gynhyrchir yn THORP, o leiaf hwnnw a gynhyrchir o danwydd hesb aelod-wladwriaethau.

Bydd y Pwyllgor Llywio yn dwyn pwysau ar y senedd Ewropeaidd i ddatgan methiant y Comisiwn Ewropeaidd i:

- sicrhau bod cyfiawnhad dros gynhyrchu plwtoniwm cyn ei gynhyrchu;
- sicrhau yr ufuddheir i'r gyfraith diogelwch ymbelydrol Ewropeaidd mewn perthynas â THORP;
- orfodi'r DU i weithredu a pharchu cyfraith diogelwch ymbelydrol y GE;
- ddefnyddio ei bwerau argyfwng i atal THORP rhag agor er osgoi tramgwyddo cyfraith diogelwch ymbelydrol y GE.

Mae Cyfeillion y Ddaear, drwy gyfrwng y Llys Ewropeaidd, a Greenpeace, drwy'r Uchel Lys, yn herio penderfyniad y llywodraeth Brydeinig ar dir cyfreithiol.

Mae CND Cymru yn gobeithio cydgysylltu â Chyfeillion y Ddaear a Greenpeace parthed y ffordd orau o ymgyrchu yn erbyn THORP yng Nghymru. Os carech gymryd rhan yn yr ymgyrch hon neu os oes gennych unrhyw syniadau ysbrydoledig, cysylltwch â Dave Andrews, Is-Gadeirydd (0978 310491).


**GWEITHREDU**


** Ysgrifennwch at eich AS yn condemnio penderfyniad y llywodraeth a gofynnwch iddo/iddi alw am Ymchwiliad Cyhoeddus o leiaf.*

** Ysgrifennwch at eich ASE ynglŷn â methiannau'r Comisiwn Ewropeaidd a amlinellir uchod.*

** Os carech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Dave Andrews.*

** Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithredu uniongyrchol di-drais yn Sellafield, cysylltwch â Jill Stallard, os g. yn dda, ar (05505) 260.*






*Roedd aelodau CND Cymru, yr Is-Gadeirydd Ray Davies, côr Cochion Caerdydd a glowyr o Lofa'r Tŵr ar strydoedd Caerdydd ar Ragfyr 18fed y llynedd i brotestio ynghylch penderfyniad y llywodraeth i fwrw ymlaen â THORP a galw am yr ymchwiliad cyhoeddus y mae arnom ei angen i ddadansoddi: • yr achos economaidd • y dewisiadau amgen • bygythiad THORP o ran lledaeniad niwclear • y peryglon i'r amgylchedd • effeithiau'r gwahanol ddewisiadau at swyddi a'r economi leol • yr effeithiau ar ardaloedd eraill y tu hwnt i Cumbria.*

# Trawsfynydd – oblygiadau byd-eang dadgomisiynu

Rydym wedi dathlu'r penderfyniad gan Nuclear Electric i gau Atomfa Trawsfynydd. Esgorodd trafodaeth ar sut y credwn ni y dylid mynd ati i ddadgomisiynu ar gyfarfod yng Nghymru ar 11eg Rhagfyr a ddenodd gynrychiolwyr o lawer o grwpiau a mudiadau gwrth-niwclear ledled gwledydd Prydain.

Arweiniodd cyfarfod blaenorol ar Hydref 31ain 1987 at gytundeb ar strategaeth ar gyfer rheoli gwastraff niwclear. Roedd y strategaeth honno am weld terfyn ar greu gwastraff niwclear drwy gynhyrchu ynni a dadgomisiynu. Cytunwyd na ddylid dympio neu 'gael gwared â' gwastraff; y dylid chwilio am ffyrdd cyfrifol a derbyniol o storio. Teimlid bryd hynny y dylid cadw gwastraff niwclear, yn cynnwys tanwydd hesb, ar lefel y ddaear lle gellid ymdrin ag ef pe bai damwain, ar y safleoedd niwclear lle crewyd y gwastraff, ac y dylid ei arwylio'n gyson a'i dynnu allan os bydd angen, i'w ail-bacio.

Trafododd cyfarfod Rhagfyr 11eg y datganiad hwn ac oblygiadau'r strategaeth i'r sefyllfa bresennol yn Nhrawsfynydd.

Nid anghytunwyd â'r un pwynt o Ddatganiad 1987. At hynny, cytunwyd:

1. Y dylai'r cyhoedd a llywodraeth leol fod yn rhan o'r broses benderfynu ar amseru a hyd a lled y dadgomisiynu.
2. Na ddylid roi'r gwastraff niwclear a'r adweithyddion mewn 'claddgell' oblegid golygai hynny ildio rheolaeth dros y cynnwys.
3. Trefnwyd cyfarfod pellach a fydd, gobeithio, yn denu hyd yn oed mwy o ddiddordeb o bell ac agos.

**GWEITHREDU**

** Gweler y dyddiadur am wybodaeth bellach am gyfarfod Manceinion.*

** Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithredu uniongyrchol di-drais yn Nhrawsfynydd, cysylltwch â Rod Stallard (05505) 260*

## Y Barri a Rhyfel y Gwlff

Gydag awdurdodau milwrol yr UD wedi dychwelyd Stordy Arfau Caerwent i ofal y Weinyddiaeth Amddiffyn, Gorsaf Olrhain Llongau Tanfor Llynges yr UD ym Mreudeth yw'r unig gyfleusterau milwrol Americanaidd yng Nghymru bellach.

Roedd llai yn hysbys am ganolfan drafnidiaeth Byddin yr UD yn y Barri na'r ddwy ganolfan fawr uchod. O 1980 o leiaf, bu staff llawn-amser yno yn gyfrifol am drosglwyddo arfau i Gaerwent a Welford (stordy arfau Awyrlu'r UD ger Comin Greenham). Caewyd y cyfleuster hwn ym 1989/90 fel rhan o doriadau milwrol cyntaf yr UD yn sgîl cwymp Wal Berlin.

Agorwyd y ganolfan drafnidiaeth eto yn y cyfnod yn arwain at ryfel y Gwlff a'i gau eto wedi diwedd y rhyfel hwnnw. Mae awdurdodau milwrol yr UD yn "dal i gontractio am gael defnyddio'r cyfleusterau trafnidiaeth yn y Barri fel y bo'r angen" er gwaetha'r ffaith nad ydynt bellach yn defnyddio "RAF" Caerwent.

- *Byddem yn croesawu unrhyw wybodaeth bellach ar swyddogaeth y Barri yng nghynlluniau milwrol yr UD. Cysyllter â Brian Jones, 72 Heol Gwyn, Alltwen SA8 3AN, Gorllewin Morgannwg (0792) 830330*

# Dyddiadur

**Byddwn yn hapus iawn i gynnwys unrhyw gyfraniadau oddi wrth fudiadau eraill yn gweithio dros heddwch a chyfiawnder dynol ac amgylcheddol yng Nghymru.**

**Chwefror 19-26** WYTHNOS CYMRU DDI-NIWCLEAR – 12fed Penblwydd Datgan Cymru'n Wlad Ddi-Niwclear.

**Chwefror 19** CND Abertawe Dosbarthu taflenni yn Stryd Rhydychen, 11.00 am (0792) 830330. Arddangos posteri a dosbarthu talenni – *Casnewydd, Gwent: Hilary Kanaris (0633) 279018 Caerdydd: Jill Stallard (0792) 774687 Caerffili: Ray Davies (0222) 889514 Aberystwyth: Medi James (0792) 832725*

**Chwefror 23** 8.00pm CND Abertawe Cymru Ddi-Niwclear – Y Parti! *Chez Jan a Brian, 72 Heol Gwyn, Alltwen, Pontardawe (0792) 830330*

**Mawrth 16** Ysgrifennu llythyron gyda CND Abertawe – Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Abertawe (0792) 830330

**Mawrth 26** Dydd o weithredu i gefnogi'r Innu a gweithredu yn erbyn hedfan isel yn RAF Y Fali, Ynys Môn. *Rod Stallard (05505) 260*
Bob blwyddyn, dioddefa pobl Innu Gogledd Canada filoedd o achosion o hedfan isel drostynt gan awyrennau milwrol o Brydain, yr UD, a'r Iseldiroedd gan effeithio'n ofnadwy ar y bobl a'r bywyd gwyllt. Os na fedrwch ymuno â'n gweithred, ysgrifennwch at eich AS – a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn – yn annog atal pob hyfforddiant milwrol hedfan isel. Mwy o wybodaeth gan Jill Stallard.

**Ebrill 1** Gweithredu yn Llanisien *Ray Davies (0222) 889514*

**Ebrill 9** Cyfarfod Cyngor CND Prydeinig, *Llundain*

**Ebrill 9** 12.00pm 'Strategaeth er Dadgomisiynu Gorsafoedd Pwer Niwclear a Rheoli Gwastraff Niwclear' *Tŷ Cwrdd Crynwyr Manceinion, Mount Street.*
Mae hwn yn addo bod yn gyfarfod pwysig a diddorol a fydd yn berthnasol iawn i ni yma yng Nghymru. Mwy o wybodaeth ac efallai trefniadau i rannu cludiant – Hugh Richards (0982) 570362

**Ebrill 16** Cyngor CND Cymru 11.00am *Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Temple St., Llandrindod Powys.*
Croeso i bob aelod a chynrychiolydd. Am agenda a gwybodaeth am rannu cludiant, cysyllter â Jill Stallard.

**Ebrill 26** Diwrnod Chernobyl – Bwriedir gweithredu o gylch rheilffyrdd sy'n cludo gwastraff niwclear yng Ngogledd Cymru. *Cysyllter â Dave Andrews*

**Ebrill 20** CND Abertawe – Tŷ Cwrdd y Cyfeillion, Abertawe (0792) 830330*Paratoi deunydd ar gyfer casgliad ar gyfer Plant Chernobyl.*

# Gweithredu Ymgyrchu

**1995** yw hanner canmlwyddiant diweddu'r Ail Ryfel Byd, ffurfio'r Cenhedloedd Unedig, a bomio Hiroshima Nagasaki â bomiau atomig – bydd y Cytundeb Atal Lledaeniad (CALl) yn cael ei adnewyddu ym mis Ebrill 1995 hefyd. **MAE HYN OLL YN GOLYGU Y BYDD 1994 YN FLWYDDYN ALLWEDDOL I CND.**

Gall ein gwaith ni nawr gynorthwyo i sicrhau CALl newydd a chryfach – a'r cyfraniad gorau y gallwn ni ei wneud tuag at fyd di-niwclear yw ymgyrchu hyd yn oed yn fwy egniol i ddarbwyllo Prydain i ddileu TRIDENT A THORP a chefnogi gwaharddiad llwyr ar BROFION niwclear.

Mae cynllun gweithredu ymgyrch 15-mis ar y gweill, am y cyfnod o nawr tan gynhadledd adnewyddu'r CALl, a bydd defnyddiau ymgyrchu newydd ar gael (pamffledi, pecynnau ymgyrchu, taflenni, ac ati).

Pa ffordd well o ehangu eich gwybodaeth, hogi eich medrau ymgyrchu a chael tipyn o hwyl ar yr un pryd na dod i'r ysgolion undydd Ymgyrchu i Atal Lledaeniad?

**SADWRN MAWRTH 12fed 11am**
**De Cymru – Y Siop Heddwch, Caerdydd**
**Gogledd Cymru – Canolfan Heddwch a Chyfiawnder, Wrecsam**

Gobeithiwn ddenu amrywiaeth o siaradwyr diddorol a phobl o ymgyrchoedd cysylltiedig, yn ogystal â llawer o aelodau CND Cymru. Felly, rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur heddiw a dewch ar y 12fed Mawrth gyda brechdanau, digon o ynni (ac os gall rhywun ddod ag un gair y gallem ei ddefnyddio yn lle LLEDAENIAD, efallai y cânt wobr!)

** Am fanylion pellach, cysyllter â Jill Stallard (05505 260)*

# Yr achos sylfaenol

Mae'r arddangosfa 'Yr Achos Sylfaenol dros CND' eisoes wedi ymweld â sawl llyfrgell yn Ne Cymru ac mae arddangosiadau'r dyfodol yn cynnwys

**Chwef 21 – Mawrth 11 Rhydfelen (Morg. Ganol); Mawrth 14 – 25 Pontypridd**
**Ebrill 18 – Mai 6 Abertridwr; Mai 9 – 27 Bargoed**

Mae cynlluniau ar gyfer arddangosfeydd yng Ngwent, Dyfed a Gwynedd eisoes ar y gweill, ond mae diffyg stondinau arddangos yn ei gwneud hi'n anodd trefnu dyddiadau yn yr ardaloedd hyn eto. Os gall unrhywun gael gafael ar stondinau arddangos ysgafn, cryno, a hawdd eu symud (a allai ddal saith poster A2) y gallem eu defnyddio yn unrhyw un o'r siroedd hyn, rhowch wybod i ni ar fyrder, da chi – tel: 05505 260.

## EISIAU – Dosbarthwyr!

I gefnogi'r arddangosfeydd sy'n teithio'r llyfrgelloedd, mae CND Cymru wedi cynhyrchu dwy daflen newydd – a beth sydd ei angen yn awr yw'ch cymorth chi i'w dosbarthu!

Gallech yn hawdd iawn ddosbarthu 100 o daflenni o ddrws i ddrws neu drefnu bod siop leol yn cymryd pentwr – dwy ffordd hanfodol a syml o ledaenu ein gwrthwynebiad i arfau niwclear.

- *Peidiwch ag oedi ... Cysylltwch â Mary heddiw ... Jill Stallard, Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place, Caerdydd CF2 4RQ (0792) 774687*

## Y Gyfraith yn erbyn Rhyfel – Prosiect Llys y Byd

Fis Mai diwethaf, llwyddodd Prosiect Llys y Byd ddarbwyllo Mudiad Iechyd y Byd i ofyn i'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn Den Haag i benderfynu ar gyfreithlondeb defnyddio arfau niwclear. Ystyrir yr achos - sydd yn seiliedig, i raddau helaeth, ar effeithiau meddygol (a ddogfennwyd yn helaeth) ffrwydrad niwclear - gan y Llys Rhyngwladol ym mis Mehefin.

Fodd bynnag, ataliwyd ymgais i ofyn am benderfyniad pellach - ar gyfreithlondeb bygwth defnyddio arfau niwclear - yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Tachwedd. Cafodd y cynnig, a gyflwynwyd gan Indonesia ar ran y gwledyddd Heb Ymochri, ei dynnu yn ôl yn y pen draw o dan bwysau anferth gan bwerau niwclear NATO. Er gwaethaf y pwysau hwn, a than ddylanwad y nifer anferth o "Ddatganiadau o Gydwybod Cyhoeddus" a gyflwynwyd yn Efrog Newydd i gefnogi'r cynnig, cefnogodd o leiaf bedair gwladwriaeth NATO y cynnig yn erbyn gwladwriaethau niwclear NATO.

Mae prosiect Llys y Byd yn bwriadu ailgyflwyno'r cynnig ar gyfreithlondeb bygwth defnyddio arfau niwclear i Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Hydref, ac mae ar hyn o bryd yn edrych am wlad newydd i noddi'r cynnig hwn.

**GWEITHREDU**

*Cyflwynir y Datganiadau i'r Llys ym mis Mehefin - felly mae amser i gasglu mwy o lofnodion o hyd. Mae copiau ar gael gan Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (05505) 260.*

# Cysylltiadau

**Ysgrifennydd Cyffredinol CND Cymru: Jill Stallard.** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel. 05505 260

## CYSYLLTIADAU YMGYRCHU

■ **Profion Niwclear, Lledaeniad Niwclear ac Ynni Niwclear:**
**Brian Jones,** 72 Heol Gwyn, Yr Alltwen, Pontardawe SA8 3AN. Tel 0792 830330

■ **Diarfogi a Datblygiad, Addasu Amddiffyn, ac Ymgyrchu yn erbyn y Fasnach Arfau:**
**Jill Stallard,** Tel. 05505 260

■ **Dadfilwreiddio Cymru a Hedfan Isel:**
**Rod Stallard,** Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR. Tel. 05505 260

■ **THORP a Rheilffyrdd yn Cludo Deunydd Niwclear yng Ngogledd Cymru:**
**Dave Andrews,** 31 Ffordd Acton, Wrecsam, Clwyd LL11 2NA. Tel 0978 310491

■ **Ieuenctid CND:**
**Joe Castle,** 25 Aberystwyth Cres., Y Barri CF6 8EH. Tel. 0446 738020

■ **Masnachu:**
**Jan Henderson.** Tel. 0792 830330

## MWY O WYBODAETH A SYNIADAU

■ **Cysylltwch â'ch Is-gadeirydd CND Cymru agosaf, os g. yn dda:**
**Gogledd Cymru**
**Dave Andrews,** Tel. 0978 310491
**De Cymru**
**Ray Davies,** Tel. 0222 886695
**Canolbarth:**
**Medi James,** Aberystwyth Tel. 0970 832725
**Rod Stallard,** Llanymddyfri Tel. 05505 260
**Ian Campbell,** Aberystwyth Tel. 0970 871360

## Newyddion Gweithredu Heddwch

- Bydd y rhifyn nesaf o Newyddion Gweithredu Heddwch yn ymddangos ym mis Ebrill 1994
- Danfoner cyfraniadau at Jill Stallard, Nantgaredig, Cynghordy, Llanymddyfri, Dyfed SA20 0LR (05505) 260
- Croesewir cyfraniadau ar ddisg cyfrifiadur. Cysyllter â Jill neu Mike Southern (0222 222782) am fanylion
- Y dyddiad cau ar gyfer copi yw 7fed Mawrth 1994.
- Croesewir pob cymorth gyda'r gwaith golygyddol.

# Robert Manson – Prif Ymgyfreithiwr Pax Legalis

Mae Robert Manson yn adnabyddus iawn i nifer o bobl sydd wedi bodger bron llysoedd barn mewn achosion heddwch, ag yntau wedi rhoi ei wybodaeth arbenigol am drefniadaeth llys barn, a'i grap ardderchog ar y gyfraith berthnasol at eu gwasanaeth yn ddiwarafun. Ym 1991, ymunodd Rob â Pax Legalis, y grŵp bychan a gyfarfu gyntaf ym mhentref Pantymwyn yng Nghlwyd. Maent wedi bod yn ceisio dwyn y cwestiwn niwclear ger bron y llysoedd er 1987, drwy gyhuddo gweinidogion y goron o dramgwyddo o dan y Ddeddf Hil-laddiad, Deddf Confensiynau Genefa a'r ddeddf droseddol gyffredin.

Yn fwyaf diweddar, cyflwynwyd hysbysiaethau ger bron Llys Ynadon yr Wyddgrug ym 1991 a 1993. Derbyniwyd holl ddadleuon Robert Manson i bob diben gan y llys, ag eithrio mater Breint-ryddid y Goron ("nyni yw'r llywodraeth, ni fedrwn gyflawni camwri"). Bwriedir herio'r maen tramgwydd hwnnw pan â Pax Legalis i'r Llysoedd Barn Brenhinol i geisio caniatad am arolwg barnwrol yn fuan.

Yn y cyfamser, mae ymdrechion ar y gweill i sicrhau cyhoeddi dossier cyfreithiol cynhwysfawr a mawr ei barch Robert Manson. Bydd hyn y gyfraniad sylweddol i'r cwestiynau cyfansoddiadol dan sylw ac i egwyddor bwysig hawl y dinesydd cyffredin i ddefnyddio'r gyfraith.

*Fred Starkey*

- *Bydd eich cyfraniad o £10 – neu fwy, os medrwch – yn sicrhau i chi eich copi o "The Pax Legalis Papers". Dylid danfon cyfraniadau at: The Institute for Law and Peace, 17 Herbert Street, Camden, Llundain NW5 4HA (sieciau'n daladwy i "The Institute for Law and Peace"). Mwy o wybodaeth ar gael gan Jill Stallard – gweler y rhestr gysylltiadau.*

# Felly dyna'r cyfle a gafwyd ac a gollwyd

Bedair blynedd yn ôl, roedd rhai ohonom yn y mudiad heddwch yn siarad o ddifri am y cyfleoedd oedd wrth law. Credem bod y byd yn newid er gwell. Wel, addefaf fy mod wedi bod yn euog o'm twyllo fy hun a bod yn or-obeithiol.

Mae'r drefn fyd-eang newydd a oedd ar y gorwel, trefn fyd-eang o ddiarfogi a chydraddoldeb rhwng cenhedloedd wedi toddi o flaen ein llygaid, gan ein gadael yn siomedig ac yn sinigaidd a'r byd yn lle mwy peryglus. Byd o elyniaeth, llygredd ac, i'r mwyafrif o'i ddinasyddion, byd o dlodi.

Mae gwledydd y gorllewin - neu'r gwledydd uwch-gyfalafol, os caf gyfeirio atynt felly - wedi gorfodi eu fersiwn hwy o drefn fyd-eang newydd ar y gwledydd comiwnyddol "gorchfygedig" a'r trydydd byd yn gyffredinol.

Nid yw'r methiant i gynnig ateb boddhaol i broblem y gyn-Iwgoslafia, y modd y gadawyd Bosnia i wynebu ei thynged, a'r modd yr ildiwyd i'r Serbiaid a'r Croatiaid yn argoeli'n dda iawn ar gyfer dyfodol y gwledydd Balkaidd.

Mae anallu'r Cenhedloedd Unedig i hwyluso datrys y broblem neu weithredu mewn modd penderfynol wedi bwrw amheuaeth ar allu'r mudiad hwnnw i fod yn gorff a all gynrychioli holl genhedloedd y byd. Yn waeth byth, mae'n fêl ar fysedd gwleidyddion y dde a hoffai allu diystyru'r CU fel dim byd ond siop siarad lwgr.

Cur pen gwaeth byth yw dadfeiliad araf Rwsia a lluoedd y tywyllwch sydd yn dechrau eu hamlygu eu hunain. Mae'r sefyllfa'n frawychus o debyg i Wladwriaeth Weimar yn yr Almaen a goresgyniadHitler a Natsiaeth.

Ymateb NATO a'r Undeb Ewropeaidd yw nid helpu Rwsia ond ei hynysu oddi wrth weddill Ewrop. Fel y dywedodd Andrei Kozyrev, Gweinidog Tramor Rwsia, telir gormod o sylw i safbwynt NATO. Credaf bod gennym ninnau yn CND hawl i ofyn beth a ddigwyddodd i'r "Gynhadledd ar Ddiogelwch a Chydweithrediad yn Ewrop".

Y newyddion da yw yw bod Clinton wedi cytuno gydag Wcrain ar ddileu ei harfau niwclear, ac wedi cytuno â Rwsia i roi'r gorau i dargedu ei gilydd (er, gyda chyfrifiaduron, na chymer yn hir iawn i ail-anelu).

Beth yw ymateb gwleidyddol Prydain?

A barnu wrth adroddiadau papur-newydd, dim llawer. Siawns nad yw pwy sy'n cysgu gyda phwy yn destun mwy o ddiddordeb. Ac, i nifer fawr o wleidyddion, pwy fedrant eu twyllo nesaf. Wrth i ymchwiliad Scott i arfau i Iraq rygnu yn ei flaen, daw'n amlwg mai'r hyn sydd o'r pwys mwyaf i lywodraethau Toriaidd yw gwerthu arfau, ni waeth am unrhyw ystyriaeth foesol.

Mae'r Blaid Lafur seneddol wedi rhoi'r gorau i wrthwynebu Trident ac mae hyd yn oed yn cwestiynu toriadau arfaethedig y llywodraeth mewn gwariant ar arfau confensiynol. A siarad yn blaen, nid oes gan y mwyafrif o bleidiau gwleidyddol unrhyw beth newydd i'w gynnig ac maent yn hesb o syniadau.

Felly, i ble yr awn ni o'r fan hon? Ceisio darbwyllo ymgeisyddion yn yr etholiadau Ewrpeaidd? Ein hynysu en hunain oddi wrth bleidiau gwleidyddol a gwneud beth sydd yn bwysig i ni? Rhoi'r ffidil yn y to a rhoi'r gorau i boeni am y byd? Neu gael gwared â'n sinigiaeth ac ailgyfeirio ein dicter fel y gallom fynd allan i'r priffyrdd a'r caeau ac ennill y bobl ac adeiladu mudiad newydd. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn chi . . .

## Rwyf am ymuno â'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear

Enw ______________________________

Cyfeiriad ______________________________ Côd Post ____________

Teleffon ______________ Amgaeaf siec/AB am £ ______________

yn daladwy i CND Cymru. Pâr £15; Oedolyn £10; Digyflog, pensiynwyr, ieuenctid £3.

Dychweler i CND Cymru, Y Siop Heddwch, 56 Mackintosh Place Caerdydd CF2 4RQ.

# Cychwyn trafodaethau ar ddiweddu profion niwclear

Cychwynnodd trafodaethau ynglŷn â Chytundeb Gwahardd Profion (Niwclear) Cynhwysfawr yng Ngenefa ym mis Ionawr. Datryswyd yr holl broblemau technegol eisoes; y cwbl sydd ei angen bellach yw'r ewyllys gwleidyddol. Mae'n werth cofio y negydwyd y Cytundeb Atal Profion Rhannol – yn gwahardd profion ar arfau niwclear uwch law wyneb y ddaear – o'r dechrau i'r diwedd mewn dim ond 12 diwrnod!

Fodd bynnag, mae'r jyncis niwclear yn awyddus i barhau â phrofion arfau niwclear. Yr awgrym ar hyn o bryd yw, yn gyfnewid am atal pob prawf niwclear ar ôl 1996, y dylid 'caniatau' iddynt gynnal rhai profion rhwng nawr a phryd hynny. Mae'r pwerau niwclear am gynnal mwy o brofion er mwyn datblygu arfau niwclear newydd, a pherffeithio 'efelychiad cyfrifiadur o ffrwydriadau niwclear'.

Mae'r 'cyfaddawd' hwn yn gytundeb y mae CND yn ei wrthod yn llwyr – mae pob prawf niwclear yn llygru'r awyrgylch yn fwy byth. Rhaid i ni barhau i ddweud wrth y byd ein bod yn erbyn unrhyw brofion niwclear pellach ac ein bod eisiau Cytundeb Gwahardd Profion Cynhwysfawr yn awr.

**GWEITHREDU**

*Gall stamp 25c eich galluogi i fynegi'ch barn wrth Brif Weinidog Ffrainc. Mae'r Arlywydd Mitterand yn erbyn ailgychwyn profion niwclear Ffrengig ond mae'r Prif Weinidog Balladur dan bwysau mawr iawn gan lobi niwclear Ffrainc. Gadewch i ninnau bwyso yn ôl. Ysgrifennwch at Y Prif Weinidog M. Balladur, 5758 Rue de Varenne, 75700 Paris, Ffrainc.*

# CND yn yr ysgol

Yn y gorffennol, yn rhy fynych o lawer, ystyrid hyrwyddo syniadau CND mewn ysgolion yn 'rhy wleidyddol', gan ein hatal rhag ymgymryd ag unrhyw raglen addysg gynhwysfawr – OND MAE'R CWRICWLWM ADDYSG WEDI NEWID HYN I GYD! Mae CND Cymru wedi bod yn derbyn mwyfwy o ymholiadau gan adrannau hanes, addysg grefyddol, gwyddoniaeth a Saesneg hyd yn oed mewn ysgolion yn ceisio gwybodaeth a siaradwyr, ac roedd edrych ar y cwricwlwm yn gryn agoriad llygad. Er enghraifft, mewn Hanes TGAU, o dan y pennawd 'Datblygiadau Gwyddonol a Thechnolegol er 1945' gan athrawon ddewis astudio 'Yr Oes Niwclear – Pwer Niwclear i ddibenion ynni a milwrol; Lledaeniad arfau niwclear wedi 1945; Diarfogi a Gwrthddystio cyhoeddus; CND ... ' ydym, rydym yn swyddogol!

Onid yw hi felly yn hen bryd i ni sylweddoli bod y drws ar agor led y pen i ni wneud tipyn o addysgu lle câi fwyaf o effaith – yn y dosbarth. Oni ddylem ni weithredu yn hytrach nag aros i ysgolion ddod atom ni?

I'r diben hwn, mae CND Cymru yn paratoi pecyn gwybodaeth, gyda'r nod o gael un i mewn i bob ysgol gyfun yng Nghymru. Rydym hefyd yn trefnu sesiynau hyfforddi ar gyfer pobl sy'n fodlon mynd i siarad ar ran CND mewn ysgolion, ond a hoffai fwy o wybodaeth ac arweiniad gyntaf. Athrawon eu hunain yw'r bobl orau i gynnig cymorth ac arweiniad wrth gynllunio'r gwaith hwn, ac yr ydym yn disgwyl i'n haelodau sy'n gweithio o fewn y gyfundrefn addysg i'n helpu.

Nid yw addysg wedi derbyn y statws y mae'n ei haeddu yn ein cymdeithas. Ni chyllidwyd addysg yn ddigonol erioed, ac er yr ymddengys bod consensws cyffredinol y dylai fod yn bwysig, methir rhoi'r flaenoriaeth iddi bob tro. Na foed i ni yn CND wneud y camgymeriad hwnnw. Os ydym o ddifri am weld byd di-niwclear, rhaid i ni addysgu ein plant a'n pobl ifainc – hwy fydd penderfynwyr, ffurfwyr barn a, gobeithio, aelodau CND yfory.

- *Os oes gennych unrhyw wybodaeth ar bynciau cwricwlwm, syniadau ar gyfer y pecyn gwybodaeth, yn fodlon bod yn rhan o weithgor i ddatblygu'r prosiect hwn, neu os ydych yn fodlon mynd i siarad mewn ysgolion ac am fynychu sesiwn hyfforddi, cysylltwch â Jill Stallard (0792) 774687, os g. yn dda.*

## Wythnos Cymru Ddi-niwclear '94. Chwef 19eg – 26ain

Mae fersiynau ffotogopi (maint A2) du-a-gwyn o arddangosfa CND ar gael yn rhad ac am ddim, i'w defnyddio wrth ymgyrchu ar y strydoedd yn ystod yr wythnos hon. Wedi eu gludo ar gerdyn, byddant yn gefndir addysgiadol wrth i chi ddosbarthu taflenni. Mae taflenni, sticeri a balŵns ar gael hefyd. Is law, wele restr o ardaloedd lle bwriedir dosbarthu taflenni, gyda enwau i gysylltu â hwy a rhifau ffôn.

- os rhestrir grŵp yn eich ardal chi pan na ffoniwch chi nhw a chynnig helpu?
- os nad yw eich grŵp wedi ei restru pam na awgrymwch chi fynd ati i ddosbarthu am awr neu ddwy?
- os nad oes grŵp yn eich ardal, ac os nad ydych chithau am deithio ymhell, gallech ddosbarthu taflenni i'ch stryd eich hun, eich man gwaith neu goleg.

*• Caerffili Ray Davies 0222 889514 • Casnewydd Hilary Kanaris 0633 279018 • Caerdydd Siop Heddwch 0222 489260 • Penybont George Crabbe 0446 774452 • Abertawe Brian Jones 0792 830330 • Aberystwyth Olwen Davies 0970 611994 • Wrecsam Dave Andrews 0978 310491 • Cysyllter â Jill Stallard (05505 260) am ddeunydd ymgyrchu a gwybodaeth gyffredinol.*

# Adolygiad: 'Britain, Maastricht and the Bomb', pamffled gan Milan Rai

Pan arwyddwyd cytundeb Mastricht gan John Major ar ran y llywodraeth Brydeinig, dibynnai ar anwybodaeth aelodau'r Senedd. Roedd yn sicr y byddai'r mwyafrif helaeth o bobl gwledydd Prydain yn para i fod yn anwybodus am yr effeithiau.

I aelodau CND, y cwestiwn perthnasol yw a weithredir yn filwrol drwy gyd-luoedd arfog gorllewin Ewriop neu a yw Prydain yn mynd i barhau yn 'annibynnol', yn lloeren i'r Unol Daleithau. Mae Maastricht ynglŷn â phwy ddylai Prydain ddewis fel partneriaid niwclear; llwyr anwybyddwyd y ddadl parthed a oes angen arfau niwclear o gwbl.

Ar yr adeg y dilewyd TSAM a bomiau niwclear rhydd-syrthio, pan mae'r llywodraeth wedi sylweddoli nad oes modd yn y byd y gall ddatblygu'r ergydion niwclear yn ôl y cynllun gwreiddiol i ffitio'r taflegrau Trident a rentir gennym, mae'r cydweithrediad gyda Ffrainc i gynnal a gwella arfau niwclear presennol Prydain a Ffrainc yn mynd yn ei flaen.

Mae gan y rhan fwyaf o'n cyd-aelodau wasanaeth milwrol gorfodol, lluoedd arfog sy'n gyfuniad o filwyr proffesiynol a dinasyddion. Rhoddodd Maastricht ystyriaeth i hynny yn erthygl 8(2) o Deitl 11 Rhan Dau: 'Bydd Dinasyddion yr Uniad yn mwynhau'r hawliau a roddir iddynt gan y Cytundeb hwn a byddant yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a arosodir ganddo.' Bydd hyn yn ein hamddiffyn rhag tuedd y llywodraeth Brydeinig i ruthro i mewn i ryfeloedd, gan fod anawsterau gwleidyddol danfon milwyr dan orfodaeth i ryfel am resymau masnachol yn amhosib eu cynnal mewn democratiaeth. Dinasyddion Ewrop, ie, ond er mwyn gallu mynnu ein hawliau fel dinasyddion rhaid i ni wybod beth ydynt. Mae darllen y pamffled hwn yn fan cychwyn.

Mae 'Maastricht and the Bomb' gan Milan Ray ar gael am £1.00 o 78 Seymour Rd., Llundain N8.

*Ian Campbell, Is-Gadeirydd CND Cymru*



Uchafbwynt uwch-gynhadledd mis Ionawr ym Mosgo oedd cwblhau cytundeb i symud arfau niwclear o Wcrain a'u datgymalu. Gadawyd mwy na mil o ergydion niwclear strategol yn Wcrain ar ôl i'r Undeb Sofietaidd chwalu, ac er nad oedd ganddi'r sailstrwythur i'w cynnal am gyfnod amhenodol, roeddynt yn dal yn rym nerthol a pheryglus. A bwrw y cytuna Senedd Wcrain â'r penderfyniad, ymddengys yn sicr y symudir hwy o'r wlad a bydd hynny'n ddatblygiad i'w groesawu.

# Trefn newydd ddi-niwclear neu anhrefn niwclear?

O'r pedair cyn-wladwriaeth Sofietaidd a adawyd ag arfau niwclear, mae dwy, Wcrain a Belarus, bellach wedi mabwysiadu polisi o ddiarfogi niwclear unochrog, ac mae'r ddwy arall, sef Kazakhstan a Rwsia, yn cadw eu harfogaeth niwclear, gyda Rwsia yn dal i fod â rhyw 15,000 o ergydion niwclear ar safleoedd neilltuol, a nifer mwy byth wedi eu tynnu yn ôl a'u storio.

Mae problemau mawr i ddod o hyd, ac un o'r mwyaf o'r rheini yw'r diffyg buddsoddi mewn datgymalu'r nifer anferth o arfau niwclearRwsiaidd di-alw-amdanynt, ond o leiaf cymerwyd cam i'r cyfeiriad iawn, ac ymddengys yn debyg iawn y bydd y ddwy wladwriaeth niwclear yn rhoi'r gorau i'w harfau niwclear. Mae hyn yn sicr yn codi'r cwestiwn – os Wcrain, pam ddim Prydain?

Ar lefel fyd-eang, fodd bynnag, mae'r argoelion yn llai gobeithiol. Ac eithrio'r Unol Daleithau a Rwsia, mae pedair gwladwriaeth niwclear ganolig eu maint, sef Tsieina, Ffrainc, Prydain, ac Israel. At hynny, credir bod gan India a Pakistan arfogaethau niwclear llai, er bod De Affrica'n hawlio iddi hiddatgymalu'r ychydig arfau a adeiladwyd ganddi yn y 1970au. Mae gan Ogledd Korea, Iraq ac Iran uchelgais niwclear, ac mae rhywfaint o bwysau yn Siapan o blaid arfau niwclear, yn enwedig os â Gogledd Korea ymlaen â rhaglen, ac mae gan nifer o wledydd eraill ddiddordeb niwclear, yn cynnwys Syria a Libya.

Yn fwy cyffredinol, mae barn glir yn ymffurfio ymhlith strategwyr milwrol gorllewinol na fydd yn bosibl ffrwyno lledaeniad niwclear drwy ddulliau diplomataidd a rhai anfilwrol eraill, ac y bydd arfau niwclear o ddefnydd, gan hynny, am gyfnod amhenodol, yn enwedig i reoli gwladwriaethau niwclear posib yn y De.

Oherwydd hyn, ymddengys bod nifer o raglenni datblygu arfau niwclear cyfrinachol dros ben ar y gweill, yn enwedig yn yr Unol Daleithau, â'r bwriad o gynhyrchu dyfeisiadau niwclear arbenigol i ymladd 'rhyfeloedd niwclear bychain mewn mannau pellennig'. Credir bod y rhain yn cynnwys ergydion sydd yn creu curiadau electro-fagnetig dwys i darfu ar gyfathrebu, ergydion llawer mwy ymbelydrol neu rai 'niwtron', a dyfeisiadau a luniwyd yn fwriadol i ddinistrio bynceri tanddaearol dwfn.

Ceir agwedd gyffelyb tuag at yr annrefn byd-eang newydd ym Mhrydain, lle gwelir Trident bellach fel y taflegryn niwclear addas at bob diben, y gellid ei ddefnyddio mewn rôl 'is-strategol' mewn gwrthdaro rhanbarthol yn ogystal â mewn rhyfel niwclear strategol mawr.

Wrth wraidd y broblem ceir dwy ffordd gwbl wahanol o fynd i'r afael â'r oes niwclear. Y farn filwrol sydd yn datblygu yw na ellir dwyn rheolaeth ar ledaeniad arfau niwclear ac ymhen deg neu ugain mlynedd, bydd nifer o wladwriaethau niwclear newydd, yn fynych mewn ardaloedd wedi eu rhwygo gan argyfyngau, gyda rhai ohonynt yn bygwth buddiannau'r gorllewin. Rhaid gwrthbwyso hynny drwy gadw lluoedd niwclear hyblyg, er ar lefelau llawer is nag yn ystod y Rhyfel Oer.

Mae hefyd yn golygu datblygu amrywiaeth o amddiffynfeydd yn erbyn taflegrau, lawer ohonynt yn deillio o'r rhaglen SDI, yn ogystal ag ymdrechu'n ddygn i reoli lledaeniad gan gynnwys, lle bo rhaid, gweithredu'n filwrol yn erbyn bygythiadau niwclear posibl. Ar y wyneb, mae hwn yn syniad deniadol a hawdd ei 'werthu', yn enwedig yn y tymor byr ac ymhlith y gymuned filwrol mewn cyfnod o doriadau, ond y mae, yn ei hanfod, yn hunan-orchfygol. Mae'r syniad y gall llond dwrn o wladwriaethau niwclear pwerus benderfynu yn dragwyddol sut y dylai gweddill y byd ymddwyn yn un o olion oes y pwerau mawr.

Efallai y bydd yn bosibl ffrwyno uchelgais niwclear rhai gwladwriaethau drwy rym yn y tymor byr, ond yr effaith yn y pen draw fydd gwneud gwladwriaethau'n fwy penderfynol o ddod o hyd i ddulliau eraill, boed hynny drwy ddefnyddio arfau biolegol neu gynhyrchu arfau niwclear yn y dirgel i'w defnyddio gan asiantiaid annibynnol. Mae'n drawiadol bod Adran Ynni'r UD yn ymdrechu'n egniol iawn i wella trefniadaeth ei Dîm Ymchwil Argyfwng Niwclear (TYAN) i ymateb i'r bygythiad a genfydd oddi wrth frawychaeth niwclear.

> Mae canol y 1990au yn gyfnod o bwys hanfodol er gweithredu rheolaeth dros arfau niwclear

Y dewis arall yw canolbwyntio lawer iawn mwy ar hyrwyddo'r syniad o fyd di-niwclear, gyda'r pwys mwyaf ar ddiarfogi niwclear parhaus gan y prif wladwriaethau niwclear, ynghyd ag ymrwymiad gwirioneddol i adolygu'r Cytundeb Atal Lledaeniad Niwclear y flwyddyn nesaf. Bydd hyn yn gofyn llawer mwy o ymroddiad i reoli lledaeniad defnyddiau niwclear, yn cynnwys y rheolaeth briodol ar drosglwyddo technoleg o'r prif wladwriaethau diwydiannol – nad yw'n syniad hawdd iawn ei werthu yn oes y farchnad rydd!

Mae canol y 1990au yn gyfnod o bwys hanfodol er gweithredu rheolaeth dros arfau niwclear. Mater hawdd iawn fyddai derbyn y farn filwrol bod dewis amgen na chynnal lluoedd niwclear, a bod bygythiadau newydd yn eu hamlygu eu hunain i gymryd lle'r hen Undeb Sofietaidd. Dyna'r llwybr i ddifancoll oblegid mae'n golygu derbyn bod niwcleareiddio'r byd yn ffaith anorfod yn y tymor hir; mewn gwirionedd, mae gennym ni gyfle bychan yma i gyflwyno safbwynt amgen.

Dywedodd Einstein bod arfau niwclear wedi newid popeth ond ein ffordd o feddwl, ac mae argoelion y gallem fethu'r cyfle hwn i adeiladu ar sail yr holl lwyddiannau diarfogi a sicrhawyd ar ddiwedd y Rhyfel Oer, a'u defnyddio i'n gosod ar y llwybr tuag at fyd di-niwclear. Bydd y ddwy flynedd nesaf yn ollbwysig, ac mae'r ymgyrch i reoli lledaeniad gyda'r pwysicaf a redodd CND erioed.

*Dr Paul Rogers, Adran Astudiaethau Heddwch, Prifysgol Bradford*

## CEINIOGAU DROS HEDDWCH

dyma'ch cyfle i'n helpu ni i godi arian hanfodol i CND heb fod y baich ariannol yn mynd yn rhy drwm arnoch chi!

mae RHAID inni gyflwyno ein neges yn fwy effeithlon - ar y strydoedd, yng nghartrefi pobl ac mewn ysgolion, i'r rhai sy'n dylanwadu ar farn y cyhoedd ac yn cymryd penderfyniadau o bwys - a rhaid gwneud hynny YN AWR. Fe all ein dylanwad ni ar galonnau a brydiau'r holl bobl hyn olygu'r gwahaniaeth rhwng Byd Di-Niwclear a Byd Niwclear Di-Fywyd.

ond mae hyn i gyd yn gostus...

nid pawb sy'n gallu cymryd rhan mewn gweithredoedd, nag ymgyrchu ar y strydoedd na theithio i gyfarfodydd, ond ein gobaith ni yw bod pawb YN gallu helpu eraill i wneud y pethau hyn...

pe bai pob aelod yn cyfrannu dim ond 10c. yr wythnos i flwch "Ceiniogau Dros Heddwch", gellid codi £10,000 o leiaf erbyn diwedd y flwyddyn.

mor hawdd â hynny!

helpwch ni felly i gyrraedd y nod... trwy gasglu "Ceiniogau Dros Heddwch" tan ddiwedd mis Rhagfyr 1994, gan anfon eich rhodd wedyn (trwy siec, os oes modd, yn daladwy i "CND Cymru") at:

CND Cymru
Y Siop Heddwch
56 Mackintosh Place
Caerdydd CF2 4RQ

## PENNIES FOR PEACE

is your chance to help us raise vitally needed funds without you feeling the cost!

we MUST put our message across more - on the streets, in homes and schools, to opinion-formers and decision-makers - and we must do it NOW. Changing those hearts and minds can make all the difference between a Nuclear-Free World or a Nuclear Free-For-All

but doing it costs...

not everyone can take part in actions, do street campaigning or travel to meetings, but we're hoping everyone CAN help others to...

just 10p. a week in the "Pennies for Peace" box from every member could raise at least £10,000 by the end of the year.

it's that easy!

so please help us to reach our target...by collecting "Pennies For Peace" until December 1994 then sending your donation (preferably by cheque, payable to "CND Cymru") to:

CND CYMRU
The Peace Shop
56 Mackintosh Place
Cardiff CF2 4RQ

PENNIES FOR PEACE

CEINIOGAU DROS HEDDWCH

# DIM

TRIDENT
PROFION
THORP





# NO

TRIDENT
TESTING
THORP